Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Ymarfer Hap-samplu

## gan y

## Panel Craffu

# Adolygiad o Achosion Troseddau Casineb ac Ymosodiadau ar Weithwyr Brys

## Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel

Ionawr 2022

## Cynnwys

1.0 Trosolwg.......................................... **Error! Bookmark not defined.**

2.0 Cefndir, diben a methodoleg .................. **Error! Bookmark not defined.**

3.0 Cymeradwyaeth gan Gadeirydd y Panel ... **Error! Bookmark not defined.**

4.0 Camau gweithredu a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod Panel diwethaf.......... 3

5.0 Arfer da.......................................... **Error! Bookmark not defined.**

6.0 Meysydd sydd angen gwelliant .......................................................... 3

7.0 Ystyriaeth o achosion ymosodiadau ar weithwyr brys - drwgdybiedigion ifainc ....................................................................................................... 4

7.1 Ystyriaeth o achosion troseddau casineb - drwgdybiedigion ifainc .............. 6

8.0 Ystyriaeth o achosion ymosodiadau ar weithwyr brys - drwgdybiedigion sy'n oedolion ....................................................................................... 8

8.1 Ystyriaeth o achosion troseddau casineb - drwgdybiedigion sy'n oedolion.... 9

9.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn.......................................................... 11

10.0 Ethnigrwydd a Rhywedd ............................................................... 14

11.0 Ffocws y Panel yn y dyfodol .......................................................... 16

## 1.0 Trosolwg

Ar 31 Ionawr 2022, roedd yr Aelodau'n bresennol mewn cyfarfod o Banel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys Heddlu Dyfed-Powys. Adolygodd yr Aelodau ddetholiad o achosion troseddau casineb ac ymosodiadau ar weithwyr brys, a gafodd eu trin drwy Warediad y Tu Allan i'r Llys. Ystyriodd y Panel 15 achos. Roedd 9 yn ymwneud â drwgdybiedigion ifainc a 6 yn ymwneud ag oedolion.

Oherwydd y pandemig COVID-19 a chanllawiau'r llywodraeth o ran ymbellhau cymdeithasol, cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn rhithwir drwy'r rhaglen *Microsoft Teams*.

## 2.0 Cefndir, diben a methodoleg

Mae Aelodau'r Panel ar y cyd yn cytuno ar faes ffocws ar gyfer pob cyfarfod. Pythefnos cyn pob cyfarfod, maent yn derbyn ffeiliau achos perthnasol a ddewiswyd ar hap gan Gadeirydd y Panel. Yna, mae'r Panel yn cyfarfod i drafod pob achos a, lle y bo'n bosib, dod i benderfyniad ynghylch priodoldeb y gwarediadau. **Wrth benderfynu ar hyn, mae'r Panel yn ystyried y meini prawf canlynol:**

- Barn ac adborth gan y dioddefydd a'r troseddwr;
- Cydymffurfiaeth â pholisi'r heddlu;
- Sail resymegol dros y penderfyniad a'r canlyniad;
- Effaith debygol ar y gymuned ;
- Amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd; a
- Dewisiadau eraill posibl a allai fod ar gael.

Mae'r Panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o'r canlynol:

- Defnydd priodol ac yn gyson â'r polisi;
- Defnydd priodol gydag amheuon gan Aelodau'r Panel;
- Defnydd amhriodol neu ddiffyg cysondeb â'r polisi; a
- Panel yn methu â chyrraedd canlyniad.

## 3.0 Cymeradwyaeth Cadeirydd y Panel

Gallaf i DAVID EVANS (printiwch yr enw) gadarnhau fy mod wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn cynrychioli'n llwyr y farn a fynegwyd gan y Panel yn ystod ein hymarfer hap samplu ar 31 Ionawr 2022.

Llofnod:

Dyddiad: 25/4/22

## 4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod Panel diwethaf

O ganlyniad i waith y Panel Craffu ar Warediadau y Tu Allan i'r Llys, cymerwyd y camau canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

- Mae'r adborth cadarnhaol mewn perthynas ag achos 6 yn y cyfarfod diwethaf wedi'i roi i'r swyddog sy'n arwain yr achos.
- Codwyd achosion a ystyriwyd yn amhriodol gyda swyddog yr achos a'i oruchwylydd er mwyn rhannu dysgu.
- Diweddarwyd y cofnod cudd-wybodaeth yn achos 12 yn unol â'r cam gweithredu a'r trafodaethau o fewn y cyfarfod diwethaf.

## 5.0 Arfer da

Nodwyd yr arfer da canlynol o ganlyniad i waith y Panel yn ystod y chwarter hwn:

- Nododd y Panel fod y Tîm Troseddau Ieuenctid wedi darparu rhesymeg ac asesiad ardderchog mewn perthynas â'r canlyniad Rhybudd Amodol Ieuenctid ar gyfer ymosodiad ar weithiwr brys.

## 6.0 Meysydd sydd angen gwelliant

Nodwyd tri maes penodol sydd angen gwelliant o ganlyniad i waith y Panel yn ystod y chwarter hwn:

- Canfu nad oedd digon o dystiolaeth yn achosion 9 a 15 i gyfiawnhau cofnodi'r achosion hyn fel troseddau casineb. Fodd bynnag, rhoddwyd diweddariad gan y Tîm Cofnodi Troseddau a oedd yn dweud bod swyddogion wedi derbyn canllawiau a meini prawf pellach yn ddiweddar mewn perthynas ag adnabod troseddau casineb. Dylai cofnodi troseddau casineb wella yn y dyfodol yn dilyn hyn.
- Ni chyfeiriwyd troseddau casineb at Wasanaeth Erlyn y Goron (GEG) ar gyfer penderfyniad cyhuddo yn unol â pholisi'r heddlu.
- Roedd diffyg cysondeb rhwng achosion unigol ac achosion ieuenctid ac oedolion mewn perthynas â'r canlyniadau a roddwyd i ymosodiadau yn erbyn gweithiwr brys.

## 7.0 Ystyriaeth o achosion ymosodiadau ar weithwyr brys – drwgdybiedigion ifainc

Ystyriwyd pum achos o bobl ifainc yn ymosod ar weithwyr brys. Ymdriniwyd â'r achosion drwy: un Rhybudd Ieuenctid, un Rhybudd Amodol Ieuenctid, dau Ddatrysiad Cymunedol Ieuenctid a Gwarediad Adferol Ieuenctid.

| Asesiad yr aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 1 |
| Priodol gydag amheuon | 2 |
| Y Panel yn methu â dod i gasgliad | 2 |

Nodir arsylwadau'r Aelodau Panel isod.

### Achos 1

Rhoddwyd Rhybudd Ieuenctid i'r drwgdybyn yn yr achos hwn am ymateb yn fyrbwyll a tharo trwyn swyddog heddlu, heb achosi unrhyw anafiadau amlwg. Roedd gan yr Aelodau amheuon ynglŷn â'r ffordd y cafodd yr achos hwn ei drin. Roedd yr unigolyn yn yr achos hwn yn 17 oed adeg y drosedd, ond ni chafodd ei gyfeirio at y Tîm Troseddau Ieuenctid gan ei fod yn troi'n 18 oed yn ystod y bythefnos nesaf. Arweiniodd y penderfyniad hwn at unigolyn ifanc agored i niwed ddim yn derbyn cymorth ar gyfer ei gamddefnydd o alcohol a phroblemau eraill. Hon oedd trosedd gyntaf yr unigolyn. Er yn gyson â'r polisi, teimlai'r Aelodau y byddai Datrysiad Cymunedol â chyfeiriad at y Tîm Troseddau Ieuenctid wedi bod yn fwy priodol.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

### Achos 2

Roedd y digwyddiad hwn yn ymwneud â'r drwgdybyn yn ceisio taro swyddog heddlu â'i ben a'i gnoi pan oedd yn cael ei gadw. Teimlai'r Aelodau bod Rhybudd Amodol yn ganlyniad priodol. Roedd gan yr unigolyn batrwm o droseddu sy'n dwysau ac roedd yn derbyn cefnogaeth ac ymyrraeth gan y Tîm Troseddau Ieuenctid. Nodwyd fod rhesymau da iawn ac asesiad wedi'u darparu ar gyfer yr unigolyn hwn mewn perthynas â'r penderfyniadau a wnaed ar gyfer yr achos hwn.

Nododd yr Aelodau nad oedd y sgorau matrics difrifoldeb ar ffurflenni cyfeirio'r Tîm Troseddau Ieuenctid bob amser yn gyson neu'n gywir.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Cam Gweithredu 1:**

**Y Tîm Troseddau Ieuenctid i ymgysylltu â'r Prif Arolygydd ar gyfer Dalfeydd i adolygu achosion lle y nodwyd anghysondebau mewn perthynas â sgorau matrics difrifoldeb. Byddai unrhyw feysydd y nodwyd eu bod angen gwella wedyn yn cael eu rhannu â'r Heddlu.**

**Achos 3**

Rhoddwyd Datrysiad Cymunedol Ieuenctid i'r drwgdybyn yn yr achos hwn am gicio, ac o bosibl torri bys swyddog heddlu. Nodwyd mai plentyn coll mewn gofal oedd yr unigolyn hwn, ac felly'n agored iawn i niwed. Teimlai'r Panel y gallai'r achos hwn o bosibl fod wedi'i ddwysau oherwydd difrifoldeb y drosedd a'r ffaith bod yr unigolyn wedi derbyn Rhybuddion yn y gorffennol. Fodd bynnag, nodwyd fod yr achos hwn wedi'i gymryd gan y Tîm Troseddau Ieuenctid yng Ngwent, felly nid oedd y gwaith papur a'r rhesymeg ar gael i'r Panel adolygu. Cydnabu bod y plentyn hwn yn agored iawn i niwed, a theimlwyd y gallai Gwent o bosibl fod wedi rhoi rheswm priodol pam na chafodd yr achos hwn ei ddwysau. Nodwyd o fewn y gwaith papur bod Gwent wedi cyfeirio at ei brotocol ar gyfer plant mewn gofal, felly ystyriwyd y protocol hwn wrth benderfynu ar y canlyniad hwn. Canfu hefyd bod gwybodaeth anghyson mewn perthynas â'r canlyniad o fewn y gwaith papur sy'n ymwneud â'r achos hwn. Mewn mannau, nodwyd fod y drwgdybyn wedi derbyn Rhybudd Amodol ac nid Datrysiad Cymunedol Ieuenctid. Oherwydd y canlyniad aneglur ac absenoldeb rhesymeg ac asesiad Tîm Troseddau Ieuenctid Gwent, nid oedd y Panel yn medru dod i benderfyniad mewn perthynas â phriodoldeb y canlyniad.

**Asesiad y Panel: Methodd y Panel â dod i ganlyniad**

**Cam Gweithredu 2:**

**Rhannu achos 3 â Heddlu Gwent i gael eu barn.**

**Achos 4**

Roedd yr Aelodau'n anfodlon â'r camau gweithredu a gymerwyd wrth ymchwilio i'r achos hwn. Rhoddwyd Datrysiad Cymunedol Ieuenctid i'r drwgdybyn am daro breichiau swyddogion. 15 oed oedd yr unigolyn yn yr achos hwn ac roedd hi'n agored iawn i niwed oherwydd ei chyflwr emosiynol. Nid oedd gan yr unigolyn unrhyw euogfarnau blaenorol. Holodd y Panel pa un ai a oedd yr unigolyn wedi derbyn cefnogaeth briodol drwy'r achos, oherwydd roedd y drwgdybyn wedi

pledio'n euog er bod ei chyfreithiwr wedi'i chynghori i bleidio'n ddieuog oherwydd roedd hi eisiau gadael dalfa'r heddlu cyn gynted â phosibl. Teimlai'r Panel fod yr achos yn annigonol yn dystiolaethol, ac fe wnaethant holi pa un ai a oedd y canlyniad yn briodol. Teimlwyd y dylid adolygu'r dystiolaeth a'r canllawiau mewn perthynas â'r achos hwn.

**Asesiad y Panel: Methodd y Panel â dod i ganlyniad**

| **<u>Cam Gweithredu 3</u>:**<br><br>**Adolygu'r canlyniad a'r dystiolaeth a ddarparwyd yn achos 4.** |
|---|

**Achos 5**

Roedd yr achos hwn yn ymwneud â'r drwgdybyn yn cicio a phoeri ar swyddog, heb achosi unrhyw anafiadau amlwg. Roedd gan yr Aelodau amheuon ynglŷn â'r defnydd o Waredìad Adferol Ieuenctid yn cael ei gyhoeddi ar gyfer yr achos hwn. Teimlai'r Panel fod angen cefnogaeth ac ymyrraeth ar gyfer yr unigolyn 14 oed a gafodd ei ddal yn yfed fodca. Teimlai'r Panel hefyd y dylai'r achos hwn fod wedi'i ddwysau oherwydd difrifoldeb yr achos a'r ffaith bod y drwgdybyn wedi poeri yng nghanol y pandemig COVID-19 ac wrth i'r swyddog yrru cerbyd heddlu, er waethaf oed y drwgdybyn.

Teimlai'r Panel bod anghysondeb o ran y canlyniadau ar gyfer troseddau tebyg wrth gymharu'r achos hwn (rhoddwyd Gwarediad Adferol Ieuenctid) ac achos 1 (rhoddwyd Rhybudd Ieuenctid).

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

## 7.1 Ystyriaeth o achosion troseddau casineb – drwgdybiedigion ifainc

Ystyriwyd pedwar achos troseddau casineb ieuenctid a gafodd eu trin drwy ddau Rybudd Amodol Ieuenctid, Datryslad Cymunedol Ieuenctid a Gwarediad Adferol Ieuenctid.

| Asesiad yr Aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 1 |
| Priodol gydag amheuon | 2 |
| Amhriodol | 1 |

**Achos 6**

Roedd y drwgdybyn yn yr achos hwn wedi gweiddi pethau sarhaus ar y dioddefydd mewn perthynas â'i anabledd, a chafodd Rybudd Amodol Ieuenctid. Er bod y canlyniad yn ymddangos yn briodol a hon oedd trosedd gyntaf yr unigolyn, ni roddwyd y rhesymeg ac asesiad Swyddfa'r Tîm Troseddau Ieuenctid, felly teimlai'r Aelodau ei bod hi'n anodd i'r Panel adolygu'r canlyniad.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 7**

Teimlai'r Aelodau bod yr achos hwn wedi'i waredu'n amhriodol drwy Rybudd Amodol Ieuenctid. Roedd y drwgdybyn yn yr achos hwn wedi galw enw ar y dioddefydd, a oedd yn hiliol yn ei olwg ef. Canfu'r Panel bod yr unigolyn wedi'i gyfeirio at y Swyddfa Troseddau Ieuenctid ddwywaith yn y gorffennol a bod ei ymddygiad fel pe bai'n gwaethygu. Nododd y Panel fod yr unigolyn hwn wedi derbyn Rhybudd Amodol fis ynghynt. Roedd rhoi dau Rybudd Amodol yn groes i'r polisi. Dylid cyfeirio pob achos trosedd gasineb at Wasanaeth Erlyn y Goron hefyd ar gyfer penderfyniad cyhuddo. Canfu nad oedd yr achos hwn wedi'i gyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron yn unol â chanllawiau.

Cafwyd trafodaeth hefyd mewn perthynas â phlant sy'n cyflawni trosedd yn ardal Dyfed-Powys ond yna'n cael eu symud tu allan i'r ardal (gan y gwasanaethau cymdeithasol) a'u trin gan Dîm Troseddau Ieuenctid arall. Holodd y Panel pa un ai a oedd protocol ysgrifenedig mewn grym ynglŷn â sut y dylid cefnogi'r unigolion hyn er mwyn sicrhau cysondeb ac arferion gweithio da ar draws y ffiniau heddlu.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

| |
|---|
| **<u>Cam Gweithredu 4</u>:**<br><br>**SCHTh i drafod y protocol trawsffin mewn perthynas â phlant mewn gofal.** |

| |
|---|
| **<u>Cam Gweithredu 5</u>:**<br><br>**Anfon pob achos trosedd gasineb at Wasanaeth Erlyn y Goron ar gyfer penderfyniad cyhuddo, yn unol â'r polisi.** |

**Achos 8**

Roedd plentyn 12 oed wedi creu graffiti sarhaus ar dir ysgol ac wedi derbyn Datrysiad Cymunedol Ieuenctid. Fel yr achos uchod, nodwyd nad oedd y drosedd

gasineb hon wedi'i chyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron ar gyfer penderfyniad cyhuddo. Roedd gan yr Aelodau amheuon gan na ddylid rhoi Datrysiad Cymunedol Ieuenctid i drosedd sydd wedi'i graddio â sgôr difrifoldeb o 2. Nodwyd hefyd bod dwy drosedd gasineb wedi'i chyflawni o fewn yr un digwyddiad - un yn ymwneud â hil a'r llall yn ymwneud â rhywioldeb. Nodwyd anghysondebau o ran y sgorio o fewn y ffeil achos hefyd. Nododd yr Aelodau hefyd mai hon oedd trydedd drosedd yr unigolyn o fewn ychydig wythnosau.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 9**

Rhoddwyd Gwarediad Adferol Ieuenctid i'r drwgdybyn yn yr achos hwn am daro trwyn y dioddefydd ac am fod mam y dioddefydd yn credu bod hyn yn ymwneud â'i hil. Teimlai'r Panel fod y canlyniad hwn yn briodol. Roedd yr unigolyn wedi ysgrifennu llythyr o ymddiheuriad ac wedi cyfaddef i'r drosedd, a dim ond 10 oed ydoedd. Nododd y Panel hefyd bod yr achos wedi'i gofnodi fel trosedd gasineb, fodd bynnag, doedd dim tystiolaeth i gefnogi bod y ffrwgwd maes chwarae wedi digwydd oherwydd hil y dioddefydd.

**Asesiad y Panel: Priodol**

## 8.0 Ystyriaeth o achosion ymosodiadau ar weithwyr brys - drwgdybiedigion sy'n oedolion

Adolygodd yr Aelodau Panel 3 achos o'r fath. Ymdriniwyd ag un drwy Rybudd Amodol a 2 drwy Ddatrysiadau Cymunedol.

Roedd asesiadau'r Aelodau fel a ganlyn:

| Asesiadau'r Aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 2 |
| Defnydd priodol gydag amheuon | 1 |

Nodir arsylwadau'r Aelodau Panel ar bob achos isod:

**Achos 10**

Rhoddwyd Rhybudd Amodol i'r drwgdybyn 19 oed hwn am wthio swyddog heddlu wrth iddo gael ei gadw. Teimlai'r Aelodau bod yr achos hwn wedi'i waredu'n briodol gan fod yr unigolyn yn derbyn cymorth ac ymyrraeth.

Wrth gymharu'r canlyniad hwn â'r unigolyn 18 oed yn achos 1 (Rhybudd amodol – dim ymyrraeth), roedd anghysondeb amlwg o ran canlyniadau mewn perthynas ag achosion ymosodiadau ar weithwyr brys.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 11**

Roedd yr Aelodau'n fodlon â Datrysiad Cymunedol mewn perthynas â drwgdybyn meddw a oedd wedi brwydro yn erbyn swyddog heddlu, gan fwrw ei fraich a'i frest. Er bod ymddygiad y drwgdybyn wedi gwaethygu, nodwyd ei fod wedi ysgrifennu llythyr o ymddiheuriad a bod y swyddog yn yr achos yn fodlon â'r canlyniad. Fodd bynnag, teimlwyd bod angen rhesymeg bellach er mwyn cyfiawnhau gweithredu'n groes i'r polisi.

Eto, cyfeiriwyd at Achos 1 a'r defnydd anghyson o warediadau mewn achosion ymosodiadau yn erbyn gweithwyr brys.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 12**

Roedd y drwgdybyn yn yr achos hwn wedi gwthio a phwno'r swyddog heddlu yn y frest. Ni achoswyd unrhyw anaf amlwg. Rhoddwyd Datrysiad Cymunedol i'r drwgdybyn 70 oed hwn. Er na achoswyd anafiadau, roedd gan y Panel amheuon ynglŷn â'r canlyniad hwn gan mai achos o ymosod ar weithiwr brys ydoedd.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

## 8.1 Ystyriaeth o achosion troseddau casineb - drwgdybiedigion sy'n oedolion

Adolygodd yr Aelodau Panel dri achos trosedd gasineb a gafodd eu trin drwy Rybudd, Rhybudd Amodol a Datrysiad Cymunedol.

Roedd Asesiadau'r Panel fel a ganlyn:

| Asesiad yr Aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Priodol | 1 |
| Defnydd priodol gydag amheuon | 1 |
| Amhriodol | 1 |

Nodir arsylwadau'r Aelodau ar bob achos isod:

**Achos 13**

Teimlai'r Aelodau bod Rhybudd yn ganlyniad amhriodol ar gyfer yr achos hwn lle'r oedd y drwgdybyn wedi gweiddi sylwadau hiliol ar y dioddefydd. Fel yr achosion troseddau casineb ieuenctid, nodwyd nad oedd yr achos hwn wedi'i gyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron yn unol â'r polisi. Nodwyd fod gan y drwgdybyn yn yr achos hwn broblemau parhaus â'r dioddefydd. Roedd y drwgdybyn hefyd wedi derbyn Rhybudd o'r blaen, felly teimlai'r Panel y dylai'r achos hwn fod wedi'i ddwysau, yn unol â'r polisi o ganiatáu un Rhybudd yn unig.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 14**

Roedd y drwgdybyn yn yr achos hwn wedi rhegi ar y dioddefydd, gan wneud sylwadau homoffobig. Roedd gan yr Aelodau Panel amheuon mewn perthynas â'r Rhybudd Amodol a roddwyd gan eu bod yn teimlo bod angen rhagor o wybodaeth a rhesymeg. Roedd gan y drwgdybyn batrwm o ymddygiad tebyg a theimlwyd y dylid fod wedi cyfeirio'r achos hwn ar Wasanaeth Erlyn y Goron am gyngor, yn unol â'r polisi ar gyfer troseddau casineb. Er nad oedd y dioddefydd eisiau cefnogi'r achos, gan fod y drwgdybyn wedi cyfaddef yn llawn i'r drosedd, teimlwyd y gellid fod wedi mynd â'r achos hwn i'r llys a chyhuddo ar y sail honno.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 15**


Rhoddwyd Datrysiad Cymunedol i'r dioddefydd yn yr achos hwn am gymryd eitemau o lety myfyriwr y dioddefydd. Teimlai'r dioddefydd fod hyn yn ymwneud â'i gyfeiriadedd rhywiol. Teimlai'r Aelodau bod y canlyniad hwn yn briodol ar gyfer lladrad lefel is gan fod y drwgdybyn wedi cyfaddef yn llawn ei fod wedi dwyn yr eitemau. Nodwyd fod yr achos hwn wedi'i gofnodi fel trosedd gasineb, fodd bynnag, fel yn achos 9, doedd dim tystiolaeth i gefnogi bod y lladrad o ganlyniad i gyfeiradedd rhywiol y dioddefydd ac felly nid oedd yn drosedd gasineb.


**Asesiad y Panel: Priodol**

## 9.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn


Mae'r siartiau isod yn dangos asesiadau'r Panel o'r achosion a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf a'r asesiadau a wnaed yn y cyfarfodydd diwethaf lle yr adolygwyd troseddau casineb ac ymosodiadau yn erbyn gweithwyr brys.


Tramgwyddau sy'n gysylltiedig â throseddau casineb:








Tramgwyddau sy'n gysylltiedig â gweithwyr brys:







Ers Tachwedd 2013 mae'r Panel wedi ystyried amrywiaeth o waredladau, fel y gwelir yn y graff isod.





O'r 476 o achosion a archwiliwyd rhwng Ebrill 2013 a Ionawr 2022, cafodd 57% eu hasesu'n briodol, 20% yn amhriodol, ac 21% yn briodol gydag amheuon. Methodd y Panel â dod i ganlyniad mewn 2% o'r achosion.


Gellir gweld y newid hwn dros amser yn y graff isod:




Mae'r graff isod yn dangos y dadansoddiad fesul math o drosedd fel canran o'r achosion a ystyriwyd rhwng Tachwedd 2013 ac Ionawr 2022.




Mae'r graff canlynol yn dangos y nifer gwirioneddol o achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd a barn y Panel yn eu cyfarfodydd rhwng Tachwedd 2013 ac Ionawr 2022.




## 10.0 Ethnigrwydd a Rhywedd

Mae'r siart canlynol yn dangos crynodeb o'r achosion a adolygwyd o fewn y cyfarfod hwn o ran eu rhywedd:



Mae'r siart canlynol yn dangos crynodeb o'r achosion a adolygwyd o fewn y cyfarfod hwn o ran ethnigrwydd.

| Nodwyd Ethnigrwydd | Hunan-asesiad y Drwgdybyn | Asesiad y Swyddog |
|---|---|---|
| Gwyn – Prydeinig | 12 | 0 |
| Gwyn – Gogledd Ewrop | 0 | 13 |
| Heb nodi | 3 | 2 |

Nodwyd fod pob drwgdybyn yn adnabod ei hun fel Gwyn – Prydeinig mewn achosion lle'r oedd ethnigrwydd wedi'i gofnodi, ond roedd swyddogion wedi'u hadnabod fel Gwyn – Gogledd Ewrop. Holwyd pa un ai a oedd y meysydd hyn yn cael eu cofnodi'n gywir.

**<u>Cam Gweithredu 6</u>:**

Cyflwyno adborth mewn perthynas â chofnodi ethnigrwydd drwgdybiedigion i'r Heddlu.

Cyfanswm y gwarediadau yn ôl demograffeg a nodweddion gwarchodedig 1 Ionawr 2021 - 31 Rhagfyr 2021:

| | Rhywedd | | | | Ethnigrwydd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwarediad | Gwryw | Benyw | Arall | Rhywedd Anhysbys | Gwyn | Grŵp Ethnig Cymysg / Aml-ethnig | Asiaidd/ Asiaidd Prydeinig | Du/ Affricanaidd / Caribïaidd/ Du Prydeinig | Grŵp Ethnig Arall | Ethnigrwydd Anhysbys |
| Rhybudd | 114 | 36 | * | 2 | 138 | 1 | * | 1 | * | 12 |
| Rhybudd Amodol | 210 | 111 | * | 3 | 284 | * | 3 | * | * | 37 |
| Datrysiad Cymunedol | 531 | 228 | * | 15 | 603 | * | 6 | 9 | * | 156 |

| | Grŵp Oed | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwarediad | 18-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65 oed a hŷn | Oed Anhysbys |
| Rhybudd | 27 | 31 | 53 | 15 | 14 | 10 | * |
| Rhybudd Amodol | 86 | 95 | 71 | 42 | 25 | 5 | * |
| Datrysiad Cymunedol | 271 | 203 | 133 | 68 | 59 | 37 | 3 |

## 11.0 Ffocws y Panel yn y dyfodol

Yn unol â'r ffocws cenedlaethol presennol, cytunodd y Panel i adolygu achosion trais yn erbyn menywod a merched yn ei gyfarfod nesaf.